OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 66

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

## RHAN 4

Gweithdrefn hysbysu

### Hysbysiadau

**18.**—(1) Os yw unrhyw gyflenwad preifat o ddŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl yn creu perygl posibl i iechyd dynol, rhaid i awdurdod lleol sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn gyflwyno hysbysiad i'r person perthnasol (“relevant person”) (fel a ddiffinnir yn adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**)) o dan y rheoliad hwn, yn hytrach na hysbysiad o dan yr adran honno.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi'r cyflenwad preifat y mae'n ymwneud ag ef;

(b) datgan y sail dros gyflwyno'r hysbysiad;

(c) gwahardd defnyddio neu gyfyngu ar y defnydd o'r cyflenwad hwnnw; ac

(ch) pennu pa gamau eraill y mae angen eu cymryd i ddiogelu iechyd dynol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r defnyddwyr yn ddi-oed ynglŷn â'r hysbysiad, a darparu pa bynnag gyngor sydd ei angen.

(4) Ceir gwneud yr hysbysiad yn ddarostyngedig i amodau, a chaniateir ei ddiwygio ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad pellach.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol ddirymu'r hysbysiad ar unwaith pan nad oes bellach unrhyw berygl posibl i iechyd dynol.

(6) Mae torri neu beidio â chydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan y rheoliad hwn yn dramgwydd.

### Apelau

**19.**—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan hysbysiad a roddir o dan reoliad 18 apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.

(2) Mae'r weithdrefn apelio a ddilynir mewn llys ynadon ar gyfer apêl o dan baragraff (1) ar ffurf achwyniad, ac y mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**) yn gymwys i'r achosion.

(3) Bydd hysbysiad yn parhau mewn grym oni chaiff ei atal gan y llys.

(4) Mewn apêl, caiff y llys naill ai ddileu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gydag addasiad neu heb addasiad.

(**1**) 1991 p.56.
(**2**) 1980 p.43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p.39), adran 47.

**Cosbau**

**20.**—(1) Mae person a geir yn euog o dramgwydd o dan reoliad 18 yn agored —

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na'r uchafswm statudol neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na thri mis neu'r ddau, neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(2) Pan fo corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a phan brofir bod y tramgwydd wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, un o'r canlynol—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall cyffelyb y corff corfforaethol; neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath,

mae'r person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd.

(3) At ddibenion paragraff (2) ystyr “cyfarwyddwr” (“*director*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.